**COMISIWN DEMOCRATIAETH A FFINIAU CYMRU**

**CYFARFOD Y PWYLLGOR ARCHWILIO A SICRWYDD RISG A GYNHALIWYD DDYDD LLUN 23 MEDI 2024 DRWY MICROSOFT TEAMS (09:30 – 10:30)**

**Aelodau'r Comisiwn a oedd yn bresennol:** Michael Imperato (Cadeirydd) drwy MS Teams, Frank Cuthbert (Aelod) drwy MS Teams, Dianne Bevan (Aelod) drwy MS Teams, Andrew Blackmore (Aelod Annibynnol) drwy MS Teams a Kalwant Grewal (Aelod Annibynnol) drwy MS Teams

**Cynrychiolydd Archwilio Cymru a oedd yn bresennol:** Julie Rees drwy MS Teams

**Swyddogion y Comisiwn a oedd yn bresennol:** Shereen Williams (Prif Weithredwr) a David Carr (Rheolwr Cyllid)

**1. Ymddiheuriadau am absenoldeb**

1.1 Ni chafwyd unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

**2. Datganiadau o fuddiant**

2.1 Ni chafwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant.

**3. Adroddiad ynghylch Cyfrifon Blynyddol 2023-24 a'r Archwiliad o Ddatganiadau Ariannol**

3.1 Adroddodd Julie Rees fod y cyfrifon wedi dod i law yn brydlon a bod yr archwiliad wedi'i gwblhau i raddau helaeth erbyn hyn ond bod rhai gwiriadau terfynol i'w cyflawni o hyd.

3.2 Nid oedd y cyfrifon yn cynnwys unrhyw gamddatganiadau nad oeddent wedi'u cywiro, ac nid oedd unrhyw faterion o bwys yn codi o'r archwiliad. Roedd y cyfrifon yn cynnwys 3 chamddatganiad a oedd wedi'u cywiro. Roedd y prif un yn ymwneud â rhoi datganiad rhy fach yng nghyswllt Safon Adrodd Ariannol Ryngwladol 16 wrth gyfrifo asedau hawl i'w defnyddio. Nid oedd y datganiad wedi'i seilio ar gost y brydles ar gyfer llety yn ystod y flwyddyn gyfan. Roedd y camddatganiadau eraill a oedd wedi'u cywiro yn ymwneud â chynnwys rhagdaliad wedi'i hepgor, a datgelu incwm adolygiadau cymunedol yn ei gyfanrwydd yn hytrach na'r taliadau cychwynnol yn unig a godwyd ar awdurdodau lleol.

3.3 Roedd dau argymhelliad archwilio wedi'u nodi yn yr adroddiad, sef y dylai'r Comisiwn gael adroddiadau llawn ynghylch mantolenni terfynol ac agoriadol wrth newid meddalwedd gyfrifyddu yn y dyfodol, ac y dylai'r Comisiwn ymchwilio i'r posibilrwydd o wneud copïau wrth gefn yn lleol o'i feddalwedd gyfrifyddu sydd yn y cwmwl ac ymchwilio i gost gwneud hynny. Yn ogystal, dywedodd Julie Rees fod

Archwilio Cymru yn bwriadu cynnal mwy o gyfarfodydd cyn archwilio gydag uwch-reolwyr yn y dyfodol, yn hytrach na chael dim ond un cyfarfod cyn archwilio ym mis Ionawr.

3.4 Roedd yr Archwilydd Cyffredinol yn bwriadu cyhoeddi adroddiad archwilio diamod, ar yr amod na fyddai unrhyw ddigwyddiadau'n effeithio ar y cyfrifon hyd at yr adeg y byddent yn cael eu hardystio gan yr Archwilydd Cyffredinol, Roedd yr ardystio i fod i ddigwydd ar 30 Medi 2024.

3.5 Diolchodd y Cadeirydd i Julie Rees am ei hadroddiad. Argymhellodd y Pwyllgor y dylai'r Comisiwn gymeradwyo'r cyfrifon archwiliedig a chymeradwyo eu llofnodi, a chytunodd i lofnodi'r Llythyr Sylwadau.

## 4. Unrhyw Fater Arall

4.1 Nid oedd unrhyw fater arall.